

Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0365(RAF) a gyhoeddwyd gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Gorffennaf 2008

At Brynle Williams:

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu am y dulliau digidol a ddefnyddir i fesur arwynebedd tir ar ddaliadau fferm yng Nghymru, mater a godwyd gennych yn y cyfarfod llawn ar 25 Mehefin 2008 o dan OAQ(3)0365(RAF). Gwnaethoch ofyn yn benodol a oedd swyddogion wedi ystyried mapio tri dimensiwn.

Yn unol â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd, rhaid i bob aelod-wladwriaeth lunio System ar gyfer Adnabod Parseli Tir a fydd yn system reoli ac yn gyfrwng i gadarnhau gwybodaeth hawlio a thalu o dan gynlluniau'r PAC a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Yn unol â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd, rhaid i'r System ar gyfer Adnabod Parseli Tir gynnwys ffiniau'r parseli ar gyfer yr holl gaeau sydd wedi'u datgan yn y Ffurflen Cais Sengl a rhaid rhoi cyfeirnod unigryw i bob parcel. Yn y DU, defnyddir data o fapiau Arolwg Ordnans yn bennaf i benderfynu ar ffiniau'r parseli. Data dau ddimensiwn yw data'r Arolwg Ordnans, a dyna hefyd yw'r data ar yr holl systemau cenedlaethol. O'r herwydd, mae'r System Adnabod Parseli Tir ledled y DU wedi'i seilio ar fapio dau ddimensiwn. Mae modd defnyddio modelau tirwedd digidol sy'n mesur uchder mewn amryfal fannau ac sy'n creu delweddau tri dimensiwn o barseli tir, ond ni ellir defnyddio'r math hwn o ddata ar ein systemau cyfrifiadurol ni. Cyngor y Comisiwn ar y mater yw bod y dull dau ddimensiwn yn briodol a bod modd cyfiawnhau ei ddefnyddio o safbwynt ymarferol ac agronomegol. Defnyddir ffotograffau a gymerir o'r awyr er mwyn ategu'r data Arolwg Ordnans ond nid yw'r dull hwn mor fanwl-gywir. Yr unig adeg y mae'n cael ei ddefnyddio yw os nad yw'r data Arolwg Ordnans yn ateb y gofyn.

Gwneir darpariaeth yn y canllawiau ar gyfer y Ffurflen Cais Sengl i ffermwyr gyflwyno mesuriadau diwygiedig o arwynebedd eu parseli tir, i roi ystyriaeth i raddiant a llethr (mapio tri dimensiwn). Os yw ffermwyr yn credu bod y map sy'n cael ei gynhyrchu'n ddigidol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi amcangyfrif llawer rhy isel o arwynebedd wyneb y tir dan sylw, gallant wneud eu trefniadau eu hunain i'r tir gael ei dirfesur yn broffesiynol.

Dylai unrhyw gynlluniau/mapiau a gyflwynir o dan y trefniadau hyn gael eu harolygu a'u hardystio gan berson annibynnol sydd â chymhwyster oddi wrth Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Sefydliad y Peirianwyr Sifil neu gorff proffesiynol arall tebyg. Hefyd, mae'n rhaid i'r map gynnwys nodweddion anghymwys (er enghraifft, creigiau neu brysgwydd) ac os yw'r tir yn cael ei fapio at ddibenion Cynllun Amaeth-amgylcheddol (Tir Gofal er enghraifft), mae'n rhaid iddo gynnwys cynefinoedd a nodweddion. Dylid defnyddio'r un dulliau i fesur y rhain ag a ddefnyddir i fesur y parcel tir. Yn aml, ceir mwy o nodweddion anghymwys (sgri er enghraifft) mewn ardaloedd mynyddig ac mae hyn yn golygu nad yw'r ffermwr ar ei ennill o gwbl o ran arwynebedd er bod y tir ar lechwedd.

Os newidir arwynebedd y parseli tir, mae'n bosibl y bydd angen ailasesu unrhyw daliadau neu hawliau gan eu bod wedi'u seilio yn y lle cyntaf ar fesuriadau dau ddimensiwn.

Os yw ffermwr neu Lywodraeth Cynulliad Cymru am newid ffiniau parseli tir, nodweddion anghymwys neu gynefinoedd a nodweddion amaeth-amgylcheddol sydd ar y parseli hynny, bydd yr arwynebedd y darn 'newydd' o dir yn seiliedig ar y dull dau ddimensiwn o fesur arwynebedd. Os yw ffermwr wedyn yn dymuno mesur yr arwynebedd hwnnw gan ddefnyddio mesuriadau tri dimensiwn, byddai'n rhaid iddo drefnu gwasanaethau syrfewr fel y crybwyllais uchod i ddarparu mapiau a mesuriadau diwygiedig.